**YM MATER RHEOLIADAU'R HEDDLU (YMDDYGIAD) 2020 (FEL Y'U DIWYGIWYD GAN REOLIADAU'R HEDDLU (YMDDYGIAD) (DIWYGIO) 2024)**

YNGHYLCH

CWNSTABL 5471 SONIA LEWIS
HEDDLU DE CYMRU

| | |
|---|---|
| **Rhif Cyfeirnod yr Achos** | CM/112/23 |
| **Dyddiad y Gwrandawiad** | Dydd Llun 1 Mehefin 2025 |
| **Lleoliad** | Canolfan Waterton Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Y Llywydd (Cadeirydd y Panel)** | Mr Ian Arundale QPM |
| **Person Cyfreithiol Gymwysedig** | Mr Christopher McKay |
| **Aelod Annibynnol o'r Panel** | Mrs Elizabeth James |
| **Aelod Annibynnol o'r Panel** | Mr Mark Rees |
| **Swyddog(ion) sy'n Destun Gwrandawiad** | Cwnstabl 5471 Sonia Lewis |
| **Camymddwyn Honedig** | Camddefnyddio Cyfrifiaduron yr Heddlu |

## Materion Rhagarweiniol

1) Ar ddechrau'r gweithrediadau gofynnodd y Cadeirydd i'r Panel ystyried rhoi seiffrau i unigolion a enwyd a oedd yn ddioddefwyr/tystion di-fai yn y mater hwn oherwydd pe na wneid hynny gellid achosi cryn embaras ar adeg cyhoeddi canlyniad cyhoeddus y gweithrediadau. O ganlyniad i hyn, cafodd atodlen ddiwygiedig o'r honiadau ei pharatoi (a atgynhyrchir isod) y cytunwyd arni gan yr Awdurdod Priodol a'r swyddog a gyhuddwyd. Felly, gwnaeth y Cadeirydd gyfarwyddo gorchymyn cyfrinachedd i ddiogelu manylion y rhai y gellid effeithio arnynt a thrwy hynny ddiogelu eu hawliau o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**Y Gwrandawiad**

2) Cynhaliwyd y gwrandawiad camymddygiad ar gyfer Cwnstabl yr Heddlu Lewis yn gyhoeddus rhwng dydd Llun, 1 Mehefin a dydd Mercher 3 Mehefin 2025.

3) Cynrychiolwyd yr Awdurdod Priodol gan Mr Barney Branston (Cwnsler) a Jordan Davies Cyfreithiwr Cyfarwyddo. Cynrychiolwyd y swyddog gan Clare Wilks (Cwnsler) a roedd y swyddog, ei chynrychiolydd o Ffederasiwn yr Heddlu y Rhingyll John Rice, y Swyddog Ymchwilio DC Katy Curtis, y Swyddog Camymddygiad Mr Paul Mason a Deimante Jodkeviciute (yr Adran Safonau Proffesiynol) hefyd yn bresennol.

**Dull Gweithredu i'w Fabwysiadu**

4) Dygwyd y gweithrediadau hyn o dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 ('**Rheoliadau 2020**') fel y'u diwygiwyd.

5) Diben craidd gweithrediadau rheoleiddiol proffesiynol, gan gynnwys gweithrediadau camymddygiad yr heddlu, yw diogelu'r cyhoedd a chynnal safonau uchel ac enw da [y proffesiwn] (*Redgrave v Commissioner of Police of the Metropolis* [2003] EWCA Civ 4 38).

6) Yn gyffredinol, diben y gweithrediadau hyn yw:

   a. cynnal hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu a'i enw da
   b. cynnal safonau uchel o ran plismona ac atal camymddwyn
   c. diogelu'r cyhoedd.

7) Mater i'r Cadeirydd yw penderfynu ar weithdrefn y gweithrediadau hyn, yn unol â Rheoliadau 2020 (**rheoliad 61(1) o Reoliadau 2020**) ac egwyddorion cyfiawnder naturiol a thegwch (**Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar gamymddwyn swyddogion yr heddlu, gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol a rheoli presenoldeb 2020**, 11.107).

8) Yn gyntaf, rhaid i ni adolygu ffeithiau'r achos a phenderfynu a ydynt wedi'u cadarnhau. Safon y prawf a gymhwyswyd gennym yw'r safon sifil, sef 'yn ôl yr hyn sy'n debygol' (**rheoliad 41(6) o Reoliadau 2020**).

   a. Os yw'r ffeithiau yn cael eu bodloni ac os ydym o'r farn eu bod yn achos o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, yna rhaid i ni ystyried, yn ôl yr hyn sy'n debygol, a yw'r ymddygiad sydd wedi'i gyfaddef gan y swyddog neu sydd wedi'i brofi yn gyfystyr â chamymddwyn, camymddwyn difrifol neu heb fod yn gyfystyr â naill na'r llall (**rheoliad 61(15)-(16) o Reoliadau 2020**). **Yn unôl â rheoliad 2 o Reoliadau 2020, ystyr camymddwyn yw achos o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu. Ystyr camymddwyn difrifol yw achos o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau diswyddo.**

9) Yr Awdurdod Priodol sy'n dwyn yr achos yn erbyn Cwnstabl yr Heddlu Lewis a'r Awdurdod Priodol yn unig sy'n ysgwyddo'r baich o brofi'r honiadau. Safon y prawf mewn achosion o gamymddwyn yw'r safon sifil, sef yn ôl yr hyn sy'n debygol. Nid oes graddfa symudol, ac nid yw'r safon yn amrywio yn ôl difrifoldeb yr honiadau na'r canlyniadau tebygol i'r swyddog. Y prawf yw'r prawf syml a diamwys 'yn ôl yr hyn sy'n debygol' ac yn achos R (IPCC) v AC Hayman [2008] EWHC 2191 (Gweinyddol) gwnaeth Mr Ustus Mitting sylwadau ar safon y prawf yn achosion disgyblu'r heddlu fel a ganlyn:

   "***Of course in disciplinary proceedings the tribunal must look with the greatest care at accusations which potentially give rise to serious consequences. But in determining whether or not they occurred, it applies a single unvarying standard, the balance of probabilities. If satisfied it is more likely than not that the facts occurred, then it must find them proved and draw appropriate conclusions as to sanction.***"

10) Ar y cychwyn, rydym yn ymwybodol iawn na ddylai cyfaddefiad a/neu ganfyddiad o gamymddwyn difrifol arwain o reidrwydd nac yn awtomatig at ddiswyddo. Rhaid i unrhyw sancsiwn ymdrin â'r amcanion a amlinellir uchod ac ni fwriedir iddo fod yn fath o gosb.

11) Rydym wedi bod yn ofalus iawn i beidio â chymhwyso safon rhy uchel i lywio ein trafodaethau yn y mater hwn. Felly, rydym wedi bod yn ofalus i bennu safon sy'n adlewyrchu safon ofynnol ddigonol o ymddygiad yn hytrach na safon rhagoriaeth y dylid ymgyrraedd ati. Ni fyddai pennu safon mor uchel yn deg, nac yn briodol, at ddibenion ein proses gwneud penderfyniad wrth benderfynu ar ganlyniad, gan fod cyflogaeth y swyddog yn dibynnu ar ein penderfyniad.

12) Rydym hefyd yn cael ein harwain gan Ganllawiau Coleg yr Heddlu ar Ganlyniadau yng Ngweithrediadau Camymddygiad yr Heddlu (2023) ('**Canllawiau Canlyniadau**') a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref, *Conduct Efficiency and Effectiveness: Statutory Guidance on Professional Standards, Performance and Integrity in Policing (2020)* ('y Canllawiau').

**<u>Y materion i benderfynu arnynt</u>**

13) Felly bydd y Panel yn penderfynu:

(1) A yw'r ymddygiad honedig wedi'i brofi, yng ngoleuni'r prawf dogfennol clir bod PC Lewis wedi defnyddio systemau'r heddlu ar bob un o'r dyddiadau perthnasol [HB 29-83] ac yng ngoleuni ei chyfaddefiadau;

(2) A yw ymddygiad o'r fath yn ymwneud â phob un o'r Safonau a blediwyd, sef Gonestrwydd ac Uniondeb, Gorchmynion a Chyfarwyddiadau a Chyfrinachedd,

(3) Difrifoldeb ymddygiad o'r fath ac a oedd yn gyfystyr â chamymddwyn, camymddwyn difrifol neu nad oedd yn gyfystyr â'r naill na'r llall,

(4) Beth fydd y sancsiwn priodol (o ystyried bod y swyddog eisoes yn cyfaddef iddi gamymddwyn bydd angen i'r Panel ymdrin â'r sancsiwn).

**<u>Honiadau</u>**

14) ***Mae'r hysbysiad rheoliad 30 gwreiddiol (fel y'i heglurir uchod) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn [Dynodir cyfeiriadau at dudalennau (bwndel wedi'i dudalennu/fersiwn pdf)]:***

***a. "Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Hydref 2021 gwnaethoch ymgymryd â'r chwiliadau canlynol ar systemau'r heddlu heb unrhyw ddiben plismona:***

i. ***Ar 6 Gorffennaf 2020, tra oeddech ar Ddiwrnod Gorffwys, gwnaethoch chwilio am eich chwaer, (Miss A; 65/109, 80/124), cyn-bartner iddi (Mr A; 82/126) a chwaer y cyn-bartner hwnnw (Miss B; 82/126). Un ffactor gwaethygol yn y chwiliad hwn yw i chi rannu rhywfaint o'r wybodaeth a ddarganfuoch am y cyn-bartner â'ch partner ar y pryd, Miss C.***

ii. ***Ar 15 Gorffennaf 2021, gwnaethoch chwilio am bartner eich chwaer ar y pryd, Mr B (33/77).***

iii. ***.... ;***

iv. ***Ar 10 Mawrth 2021 gwnaethoch chwiliad ynglŷn â'ch mab (Mr C; 39/83, 41/85; 59/103)***

v. ***Ar 6 Mehefin a 12 Mehefin 2021 gwnaethoch chwiliadau o'r stryd lle roeddech yn byw (45-53/89-97).***

vi. ***Ar 29 Medi 2020 gwnaethoch chwiliad ynglŷn â Mr D, mewn cyfeiriad ym Merthyr (57-63/101-107).***

vii. ***Ar 26 Hydref 2020 gwnaethoch chwiliad o gyfeiriad cartref eich rhieni ym Merthyr (58-59/102-103).***

viii. ***Ar 4 Awst 2020 gwnaethoch chwiliad ynglŷn â Miss D, y credid bod anghydfod rhyngddi hi a'ch chwaer (65-66/109-110, 69/113, 73/117).***

b. ***Roedd ymddygiad o'r fath yn mynd yn groes i'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas â Gonestrwydd ac Uniondeb (gan eich bod yn camarfer yn eich rôl), Gorchmynion a Chyfarwyddiadau (gan eich bod yn gwybod neu y dylech fod wedi gwybod bod gwneud chwiliadau o'r fath yn groes i'ch hyfforddiant) a/neu Gyfrinachedd (yn yr ystyr i chi gael mynediad at y wybodaeth o'r fath heblaw am wrth gyflawni eich dyletswyddau fel swyddog yr heddlu).***

c. ***Os profir ymddygiad o'r fath mae'n gyfystyr â chamymddwyn difrifol am ei fod mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau eich diswyddo."***

**<u>Ymateb y swyddog</u>**

15. Mae PC Lewis yn derbyn iddi gael mynediad at systemau'r heddlu fel y'i honnwyd, ac nad oedd ganddi ddiben plismona dros wneud hynny [HB 6-7]. O ran honiad (i), <u>nid yw'n derbyn ei bod wedi rhannu gwybodaeth yn y modd a ddisgrifiwyd gan Miss C</u> ond mae'n derbyn

iddi grybwyll y wybodaeth a gafodd wrth gael mynediad at y cofnod perthnasol ar y 6 Gorffennaf 2020 yn ei phresenoldeb [HB 9-10]. Bydd y Panel yn gwneud penderfyniad ffeithiol ynghylch o dan ba amgylchiadau roedd datgeliadau o'r fath yn 'debygol' o fod wedi'u gwneud.

16. Mae PC Lewis yn derbyn bod ei hymddygiad wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sy'n ymwneud â Gorchmynion a Chyfarwyddiadau a Chyfrinachedd, a bod ei hymddygiad yn gyfystyr â Chamymddwyn [HB 6-7]. Mae'n gwadu bod y Safon Gonestrwydd ac Uniondeb wedi cael ei thorri ac yn haeru nad yw ei hymddygiad yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

17. Nid yw'r Awdurdod Priodol yn derbyn asesiad PC Lewis o ddifrifoldeb ac mae'n haeru y byddai'r achosion o gael mynediad bwriadol at systemau cyfrinachol heb ddiben plismona, a ddigwyddodd droeon, o dan amgylchiadau lle roedd PC Lewis yn meddu ar brofiad a hyfforddiant digonol i wybod na ddylai ymgymryd â gweithgaredd o'r fath, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol - yn enwedig o ystyried yr amrywiaeth o amgylchiadau lle'n mae'n gwneud hynny a'r cyfnod estynedig (bron blwyddyn) o gamddefnyddio systemau.

18. Cyflwynodd y swyddog ymateb rheoliad 31 gan wneud cyfaddefiadau ac amlinellu pwyntiau lliniaru (a fydd yn cael eu hystyried yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon). Amlinellir prif bwyntiau ei hymateb o dan Reoliad 31 isod.

**6 Gorffennaf 2020**

1. ***"Gwnes i'r chwiliadau a amlinellwyd o dan yr amgylchiadau a nodais yn y cyfweliad. Cefais negeseuon gan ddyn anhysbys ac yna siaradais â'r dyn ar y ffôn. Ni wyddwn pwy oedd yr unigolyn. Roedd yn ymddangos bod y dyn yn hanu o Essex. I ddechrau, nid oeddwn yn gwybod a oedd y negeseuon yn rhai ddilys. Ar y pryd nid oeddwn yn ymwybodol bod fy chwaer mewn perthynas ag unrhyw un ac ni wyddwn ei bod yn "canlyn". Roeddwn mewn panig. Roeddwn yn crio ac yn ofidus oherwydd yr hyn roedd y dyn yn ei ddweud wrtha i. Dywedais wrth*** Miss C ***fy mod yn mynd i weld a allwn ddarganfod beth oedd yn digwydd. Pan wnes i hyn, ni wnes wedyn gyfleu'n ymwybodol yr hyn roeddwn wedi'i ddarganfod i*** Miss C***, ond wrth i mi wneud y chwiliadau, rwy'n cofio dweud yn uchel beth roeddwn i'n ei weld ar y system, gan ei fod yn peri panig a phryder i mi. Ni chefais sgwrs gyda*** Miss C ***ynglŷn â'r hyn a oedd ar y system. Credaf i mi ddweud rhywbeth fel "my God he's a criminal". Roeddwn yn siarad yn ddiofal wrth wneud hyn. Nid wyf yn cofio gwybod na dweud mai teithiwr oedd y dyn. Wn i ddim a yw hynny'n gywir. Fyddwn i ddim yn ei alw'n "gypo" ac nid yw hwnnw'n air y byddwn i'n ei ddefnyddio. Ddywedais i ddim wrth fy rhieni ac nid yw*** Miss C ***yn dweud y gwir mewn perthynas â hynny"***

2. ***"Sylweddolaf na ddylwn i fod wedi gwneud y chwiliadau. Roedd yn amhriodol a dylwn fod wedi ymdrin â'r sefyllfa mewn ffordd wahanol. Ar y pryd roeddwn yn wynebu problemau yn fy mywyd personol ac roedd y panig a'r pryder a deimlais pan gefais y***

***negeseuon a'r galwadau wedi gwneud i mi ymateb felly. Ni chefais unrhyw fantais o'r hyn a wnes i ac ni wnes i drosglwyddo unrhyw wybodaeth i unrhyw un yn fwriadol."***

**<u>15 Gorffennaf 2021</u>**

3. ***"Gwnes i'r chwiliad hwn o dan yr amgylchiadau a nodwyd yn fy nghyfweliad. Roeddwn yn cael gwybod bod cariad fy chwaer*** Mr B ***yn gwneud pethau i'm chwaer. Roeddwn yn poeni amdani. Tynnais sylw fy nghydweithwyr at y materion, gan gynnwys PC Kerri Pedder, PC Juliet Payne a'r Arolygydd Katryna Malinowski-Evans. Roeddem yn credu mai*** Mr B ***oedd ei enw ond ni allai'r heddlu ddod o hyd iddo. Gwnes i'r chwiliadau am fy mod am wybod a oedd fy chwaer mewn perygl. Deuthum o hyd i lythyr gyda'r enw*** Mr B ***a throsglwyddais y wybodaeth honno i'r swyddogion yn yr achos. Gwn na ddylwn i fod wedi gwneud y chwiliadau, ond roeddwn yn teimlo pryder a gofid ynghylch diogelwch fy chwaer."***

**<u>10 Mawrth 2021</u>**

4. ***"Yn ystod ein perthynas roedd*** Miss C ***wedi dwyn fy arian/cynilion ac ar ôl i mi ei gadael roeddwn i'n ceisio cael yr arian yn ôl. Cyfarwyddais gyfreithiwr i ysgrifennu ati i geisio cael yr arian yn ôl. Mewn ymateb, yn ystod "proses drosglwyddo" mewn perthynas â*** Mr C ***gwnaeth fygwth ar lafar y byddai'n rhoi gwybod i'r heddlu fy mod wedi gwneud pethau i*** Mr C***. Teimlais banig, a hyd y cofiaf, credaf fod hyn yn cyd-daro â'r gwiriad ar y system gen i er mwyn gweld a oedd unrhyw beth wedi'i nodi mewn perthynas â*** Mr C ***ganddi hi."***

**<u>6- 12 Mehefin 2021</u>**

5. ***"Ar ôl gadael Rebecca ar 24 Awst 2020, symudais yn ôl i gyfeiriad fy rhieni. Roeddwn i am symud i gyfeiriad addas i*** Mr C ***a minnau. Roeddwn wedi gadael perthynas gamdriniol, roedd*** Miss C ***yn dal i geisio fy rheoli i a*** Mr C, ***ac roeddwn wir yn bryderus am y dyfodol a pha mor ddiogel y byddai*** Mr C ***a minnau. Roeddwn yn poeni am ba ardal y byddem yn byw.Roeddwn yn pryderu y byddai*** Miss C ***yn defnyddio pethau yn fy erbyn i fynd â*** Mr C ***oddi wrtha i, er enghraifft llety anaddas."***

6. ***"Chwiliais y system ym mis Mehefin 2021 i geisio "fetio" y cyfeiriad roeddwn yn gobeithio symud iddo. Yn y pen draw, symudais i Gilfach Cynon ym mis Hydref 2021. Ni ddylwn fod wedi gwneud y chwiliadau. Sylweddolaf fod hyn yn cael ei wneud am resymau personol ac nad oedd yn briodol. Ni throsglwyddais unrhyw wybodaeth i neb. Er nad yw'n cyfiawnhau fy ngweithredoedd, rwy'n gobeithio bod yr uchod yn helpu i esbonio pam y gwnes i hynny, ac nad oeddwn ar y pryd yn meddwl yn rhesymegol am ddifrifoldeb yr hyn roeddwn yn ei wneud, ond yn syml fy mod wedi cael fy ysgogi gan fy emosiynau."***

**<u>29 Medi 2020 a 26 Hydref 2020</u>**

7. ***"Mae Birch Grove ar Stad y Gurnos, Merthyr Tudful.Cyfeiriad fy mam a'm tad yw hwn. Pan adawais*** Miss C ***ym mis Awst 2020 aeth*** Mr C ***a minnau i***

***fyw gyda fy rhieni. Roeddwn yn poeni am symud yn ôl i'r ardal a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar*** Mr C. ***Roeddwn yn pryderu y byddai*** Miss C ***yn defnyddio'r sefyllfa i geisio cael y cyfrifoldeb am ofalu am*** Mr C. ***Byddai*** Miss C ***yn aml yn fy "gwawdio" am***

***ddod o'r ystad a phan symudais yn ôl gwnaeth sylwadau am sut*** y ***byddai*** Mr C ***yn dechrau mynd i ysgol wael, na fyddai'n cael addysg dda ac yn y pen draw y byddai'n mynd yn droseddwr am ei fod yn byw yn yr ardal honno."***

8. ***"Roedd fy Mam wedi dweud wrtha i bod ŵyr cymydog wedi symud i mewn gyda'r cymydog, ei fod yn achosi trwbl ac yn ymwneud â'r heddlu drwy'r amser.***Mr D ***oedd yr ŵyr. Roeddwn yn poeni y gallai fod digwyddiadau a fyddai'n effeithio arna i a*** Mr C. ***Roeddwn yn poeni y byddwn yn cael fy ngweld mewn rhan o wisg yr heddlu ac y byddai'r cymdogion yn gwrthwynebu'r heddlu. Doeddwn i ddim am i unrhyw beth ddigwydd a fyddai'n rhoi esgus i*** Miss C ***ei ddefnyddio yn fy erbyn mewn llys teulu. Doeddwn i ddim am achosi trafferth i'm rhieni, oedd yn ceisio fy helpu ar ôl i mi wahanu."***

9. ***"Gwnes i'r gwiriad ym mis Medi i geisio darganfod beth fyddai'r sefyllfa i*** Mr C, ***fy rhieni a minnau. Alla i ddim cofio gwneud y gwiriad ym mis Hydref, ond rwy'n cymryd ei fod wedi'i ysgogi gan yr un peth. Ddylwn i ddim fod wedi'i wneud, ond o edrych yn ôl, rwy'n meddwl fy mod yn gwneud y chwiliadau fel ffordd o ymdopi â theimladau o bryder a gofid. Unwaith eto, ni wnes i rannu unrhyw wybodaeth â neb ac ni chefais unrhyw fudd gwirioneddol."***

**<u>4 Awst 2020</u>**

10. ***"Cymerodd fy chwaer*** Miss A ***orddos a gwnaeth ymdrech o ddifrif i'w lladd ei hun. Roeddwn yn ceisio darganfod beth oedd yn digwydd iddi. Roedd hyn yn ystod y cyfnod clo. Dim ond datgeliad rhannol o'r hyn a oedd yn digwydd iddi roedd fy chwaer yn ei wneud. Roedd yn ymwneud ag ymddygiad ei chymdoges,*** Miss D***, tuag ati yn ystod y cyfnod clo. Nodais yn fy nghyfweliad fanylion y wybodaeth a gefais gan fy chwaer…chwiliais am wybodaeth yn ymwneud â'i chymdoges*** Miss D ***er mwyn ceisio darganfod beth oedd yn digwydd ac a oedd yr heddlu wedi cael gwybod am broblemau neu wedi ymdrin â phroblemau. Ddywedais i ddim wrth neb fy mod wedi gwneud hyn a wnes i ddim rhannu unrhyw wybodaeth."***

**<u>Tystiolaeth y swyddog</u>**

19) Dewisodd y swyddog roi tystiolaeth gerbron y tribiwnlys. Yn gyffredinol, roedd ei thystiolaeth yn adlewyrchu'r ymateb a roddodd yn y rhannau o'r ymateb Rheoliad 31 uchod. Fodd bynnag, roedd hwn yn gyfle i'r panel glywed ganddi'n uniongyrchol ac i'r panel lunio barn ar ei hygrededd a chryfder ei thystiolaeth.

20) Ym marn y panel roedd llawer o dystiolaeth y swyddog wedi'i ymarfer, yn enwedig mewn perthynas â'r rhesymau dros ei gweithredoedd ac roedd gwahaniaeth amlwg yn y ffordd y cyflwynodd wahanol agweddau ar ei thystiolaeth. Er enghraifft, nid oedd y ffocws ar "***grio***", "***Roeddwn mewn panig***", "***Roeddwn yn poeni am fy niogelwch***", "***Doeddwn i ddim yn meddwl***" yn argyhoeddiadol i swyddog heddlu profiadol, a oedd

wedi cael hyfforddiant llawn  ac yn weithredol, a oedd yn ymgymryd â gweithredoedd a oedd mor amlwg yn mynd yn groes ac mor agored i'w rôl fel cwnstabl. Byddai'r swyddog

wedi deall y gellid bod wedi ymdrin â'r materion y mae wedi'u codi fel '*rhesymau*' dros gael mynediad at systemau mewn ffyrdd priodol heb gael mynediad at ddata sensitif yr heddlu fel manylion dioddefwyr a throseddwyr. Yn amlwg, ni fyddai atebion ffynhonnell agored o'r fath wedi datgelu euogfarnau na data am ddioddefwyr nad oes gan neb hawl i'w cael, ac eithrio at ddibenion plismona gwirioneddol. Hefyd, nid oedd ei thystiolaeth yn argyhoeddiadol mewn perthynas â'r gweithredoedd amrywiol a lluosog y mae'r honiadau yn ymwneud â nhw.

21) Fel esboniad, dywedodd y swyddog wrthym droeon ei bod yn gwybod bod yr hyn a wnaeth yn amhriodol ar adeg y digwyddiadau ac na fyddai'n gwneud yr un peth eto. Mynegodd edifeirwch hefyd. Derbyniodd fod yn rhaid cydnabod rhybudd naidlen am bob agwedd allweddol ar y defnydd priodol o systemau'r heddlu yn rhagweithiol bob tro y byddai'n agor system yr heddlu cyn i fynediad i'r system gael ei ganiatáu. Byddai hyn wedi ei hatgoffa'n rheolaidd o'i rhwymedigaeth i beidio â chyrchu gwybodaeth ar y cyfrifiadur, oni bai ei fod at ddibenion plismona – anwybyddodd y cyfarwyddyd hwn droeon.

22) At ei gilydd, yn ôl yr hyn sy'n debygol, daeth y panel i'r casgliad bod y swyddog wedi anwybyddu sancteiddrwydd egwyddor graidd plismona yn llwyr mewn perthynas â mynediad at ddata a diogelwch data ac wedi trin data'r heddlu i bob diben fel rhywbeth roedd ganddi hawl i'w defnyddio, fel y mynno, at ei dibenion ei hun (a dibenion ei theulu). Daeth y panel i'r casgliad hefyd nad oedd y swyddog wedi bod yn gwbl agored a gonest gyda'r panel a bod llawer o'i gweithredoedd wedi'u cymell gan barodrwydd cyffredinol i anwybyddu rheolau ac ymgais i sicrhau ei budd pennaf ei hun.

23) Ystyriodd y panel yn llawn esboniad y swyddog ei bod yn dioddef o straen, oherwydd problemau gyda pherthynas a phroblemau iechyd, a'i bod wedi'i llethu'n emosiynol, gan achosi iddi gymryd y camau a wnaeth. Codwyd hyn gan Gwnsler y swyddog yn ddiweddarach yn ystod y gweithrediadau gan nodi bod y swyddog yn ymwybodol o'r ffynonellau niferus o gymorth proffesiynol a oedd ar gael iddi ond bod "***rhaid i'r dioddefwr ofyn am gymorth***" ac na wnaeth hyn. Nid ydym yn ei beirniadu'n uniongyrchol am hyn ond nodwn nad oes tystiolaeth feddygol i ddangos ei bod yn sâl ac nad oedd wedi ceisio cymorth na chefnogaeth gan unrhyw un o'r sefydliadau a'r unigolion amlwg. Yn ôl yr hyn sy'n debygol, daethom i'r casgliad nad oedd y ffactorau anodd a oedd yn achosi straen iddi o safbwynt domestig a'i bywyd yn arwyddocaol yn

ei hymddygiad amhriodol (y cafodd ei gyhuddo ohono).

24) Nodwyd gennym ddigwyddiad a amlinellwyd gan Gwnsler y swyddog lle daeth mater i sylw'r heddlu a oedd yn ymwneud â Miss A a chymdoges. Byddai'r swyddog, o dan amgylchiadau arferol, wedi gweithredu ar y mater hwn ei hun ond (yn hollol briodol) hysbysodd ei goruchwyliwr ar unwaith bod 'gwrthdaro buddiannau' a chafodd ei ailddyrannu i swyddog arall. Ym marn y panel nid oedd hyn yn lliniaru dim gan y byddai wedi bod yn gwbl amlwg i unrhyw un fod gwrthdaro o'r fath yn bresennol a'i fod yn enghraifft o 'wneud y peth iawn'. Pe bai wedi ymdrin â'r mater mewn unrhyw ffordd arall gallai fod wedi arwain at gamau disgyblu pellach.

**<u>Difrifoldeb</u>**

25) Fel y'i nodir uchod ac yn unol â rheoliad 41(15)(b), mae'r Panel wedi penderfynu a yw'r ffeithiau sydd wedi'u profi a/neu wedi'u cyfaddef yn gyfystyr â chamymddwyn, camymddwyn difrifol neu heb fod yn gyfystyr â'r naill na'r llall. O ystyried y diffiniadau o gamymddwyn a chamymddwyn difrifol yn y Rheoliadau, mae hyn o reidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel asesu difrifoldeb. Er mwyn gwneud hynny, mabwysiadodd y panel y dull gweithredu a nodwyd yn y '*Guidance on outcomes in police misconduct proceedings*' ("Y Canllawiau") 2023 a ddarparwyd gan y Coleg Plismona.

26) Wrth gymhwyso'r dull hwn, ystyriodd y panel y pedair elfen hanfodol sef Beiusrwydd, Niwed, Ffactorau Gwaethygol, a Ffactorau Lliniarol[1]. Mae'r Awdurdod Priodol yn awgrymu bod y swyddog yn dwyn lefel uchel o Feiusrwydd am ei gweithredoedd, er gwaethaf yr anawsterau personol sylweddol roedd yn eu hwynebu ar y pryd. Fel y'i nodwyd yn yr hysbysiad rheoliad 30, roedd yr ymddygiad wedi parhau dros gyfnod o flwyddyn bron iawn, gan gynnwys chwiliadau lluosog ar y system am amrywiaeth o resymau, ac nid oedd yr un ohonynt yn briodol. Mae'r Canllawiau yn nodi'n glir[2] fod Diogelu a chamddefnyddio data mewn categori arbennig o ddifrifol[3] o ymddygiad.

27) Mae'r Awdurdod Priodol yn argymell hefyd fod cryn Niwed yn yr achos hwn, yn bennaf mewn perthynas â'r niwed posibl i enw da Heddlu De Cymru. Mae'r Awdurdod Priodol yn argymell bod llawer o ffactorau gwaethygol[4], gan gynnwys bod yr ymddygiad hwn wedi digwydd ar saith

[1]Gweler paragraff 4.3 o'r Canllawiau.
[2]Gweler paragraffau 4.34 – 4.39 o'r Canllawiau.
[3]Gweler paragraff 4.14 o'r Canllawiau.
[4] Gweler paragraff 4.76 o'r Canllawiau.

achlysur gwahanol dros tua deuddeg mis. O ran ffactorau Lliniarol[5] mae PC Lewis wedi gwneud cyfaddefiadau agored yn gynnar ac i'r graddau hynny mae wedi derbyn cyfrifoldeb am ei gweithredoedd.

28) Mae Cwnsler y swyddog wedi awgrymu ei bod wedi gwneud cyfaddefiadau clir a diamheuol ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r materion sy'n destun y gweithrediadau hyn ac wedi pwysleisio'r ffaith, y mae'r Awdurdod Priodol wedi cytuno â hi, nad oedd unrhyw honiad o anonestrwydd yn erbyn y swyddog. Mae'r swyddog yn gwadu iddi drosglwyddo unrhyw wybodaeth yn fwriadol ac mai er ei budd ei hun roedd ei gweithredoedd. Heriodd dystiolaeth Miss C a gwadodd fod unrhyw un o'i gweithredoedd yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

**<u>Canfyddiad Ffeithiol – Datgelu gwybodaeth</u>**

29) Ystyriodd y panel yn ofalus y ddwy fersiwn wahanol o sut y digwyddodd y datgeliad mewn perthynas â honiad i. Cyflwynodd y swyddog ei fersiwn hithau o'r digwyddiadau yn ystod ei thystiolaeth lafar ac roedd yn benderfynol mai ebychiad anfwriadol, "***my god he's a criminal***" oedd y datgeliad, a bwysleisiwyd gan y swyddog yn dal ei phen yn ei dwylo pan fynegodd hyn. Teimlai'r panel fod y rhan hon o'i thystiolaeth wedi'i hymarfer ac yn anargyhoeddiadol.

30) Yn ei hymateb Rheoliad 31, mae'r swyddog yn nodi ei bod wedi gwadu cyfeirio at y dyn fel "***traveller***" a/neu "***gypo***" wrth ryngweithio â Miss C. Er nad oedd unrhyw gyfeiriad arall at y wybodaeth hon yn y papurau, cadarnhaodd y panel fod y cyfeiriad hwn wedi'i gynnwys yn wreiddiol mewn rhan wedi'i golygu o ddatganiad tyst Miss C. I ddechrau, gwelsom fod y mater hwn yn arwydd o gyfnewid gwybodaeth drwy sgwrs ond ar ôl cyflwyniad ar y cyd yn ddiweddarach gan y ddau Gwnsler, gwnaethom ddiystyru'r wybodaeth hon ac ailystyried ein canfyddiad ffeithiol (gweler paragraffau 50 - 60). Daeth y panel i'r casgliad eto, yn ôl yr hyn sy'n debygol, fod datgeliad rhagweithiol o wybodaeth gyfrinachol a sensitif wedi digwydd.

**<u>Canfyddiadau ynghylch pob cyhuddiad</u>**

31) Bellach mae saith honiad o gyhuddiadau anghywir sy'n berthnasol i'r gwrandawiad hwn. Mae'r swyddog yn cyfaddef y ffeithiau craidd ac mae'r panel wedi canfod bod mater y ceir dadl yn ei gylch mewn perthynas â honiad i.

[5]Gweler paragraff 4.79 o'r Canllawiau.

wedi'i brofi, fel y'i hamlinellir yn y paragraffau uchod. Yn ogystal â chyfaddefiadau'r swyddog, mae'r panel hefyd wedi darllen, wedi clywed ac wedi ystyried yn llawn yr holl dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd. Yn ogystal â chyfaddefiadau uniongyrchol y swyddog, mae'r panel hefyd yn canfod bod pob un o'r chwe honiad arall wedi'u profi, yn seiliedig ar gynnwys recordiad o'r cyfweliad a'r dystiolaeth bendant nas heriwyd mewn perthynas â'i chamddefnydd o systemau'r heddlu. Felly mae pob un o'r cyhuddiadau wedi'u profi'n ffurfiol.

**<u>Torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol</u>**

32) Dywedir bod yr ymddygiad honedig yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol ynglŷn â Gonestrwydd ac Uniondeb, Gorchmynion a Chyfarwyddiadau a Chyfrinachedd fel y'u nodwyd yn Atodlen 2 i Reoliadau Ymddygiad yr Heddlu 2020 fel a ganlyn:

***Gonestrwydd ac Uniondeb***
***Mae swyddogion yr heddlu yn onest, yn gweithredu gydag uniondeb ac nid ydynt yn peryglu eu rôl nac yn camarfer ynddi.*** **(**GWADWYD**)**

33) Mae Cwnsler yr Awdurdod Priodol yn argymell ei bod wedi'i hen sefydlu bod y Safon sy'n ymwneud â Gonestrwydd ac Uniondeb yn rhanadwy; nid yw'r ddau gysyniad yn gyfystyr nac yn gysylltiedig â'i gilydd – gall rhywun weithredu heb onestrwydd ac eto ddal i fod yn onest. Mewn perthynas â'r Safon hon, nid yw'r Awdurdod Priodol yn haeru bod y swyddog yn 'anonest' ond yn hytrach, yn unol â geiriad penodol y Safon ei hun (gweler uchod), iddi "***gamarfer yn ei rôl*** ". Yn syml, dim ond am mai swyddog yr heddlu ydoedd roedd yn gallu cael mynediad at y systemau perthnasol i wneud y gwahanol wiriadau a wnaeth. Mae'r Awdurdod Priodol yn haeru bod hyn yn dramgwydd difrifol a'i bod yn briodol dweud bod ei hymddygiad wedi torri pob un o'r tair Safon a enwyd. Dylid nodi, er bod y swyddog yn cyfaddef iddi dorri'r Safon sy'n ymwneud ag Ymddygiad Annheilwng[6] nad hwn yw'r honiad a wynebodd, ac ni ofynnodd yr Awdurdod Priodol i'r Panel lunio unrhyw ganfyddiad o'r fath.

34) Mae'r swyddog yn gwadu iddi dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn hyn o beth. Argymhellodd y Cwnsler ar ran y swyddog nad oedd y swyddog wedi dosbarthu data ac nad oedd unrhyw o ddata wedi cael eu trosglwyddo ymlaen a bod hyn yn ond yn ddyfalu ar ran yr Awdurdod Priodol (

[6] Ymateb Rheoliad 31 yn HB 7, ar waelod y dudalen.

bydd y panel yn penderfynu ar y ffeithiau ynglŷn â'r mater hwn). Nodwyd hefyd y gellid cael rhywfaint o'r wybodaeth berthnasol a gafwyd drwy ddulliau 'ffynhonnell agored' hefyd.

35) Cafodd y panel gyngor ac argymhellion mewn perthynas â mater uniondeb ac ystyriodd y gyfraith achosion berthnasol. Yr hyn a oedd yn gwbl amlwg o ystyried cyfaddefiadau'r swyddog gerbron y gwrandawiad, y recordiad o'i chyfweliad a'r arddangosion dogfennol diamwys yn dangos y systemau roedd y swyddog yn cael mynediad atynt, fod y swyddog:

   a. Yn gwybod na ddylai gael mynediad at y systemau at ddiben nad oedd yn ymwneud â phlismona, a gwnaeth hynny sawl gwaith.
   b. Yn gweithredu'n groes i bolisi'r heddlu a pholisi cenedlaethol
   c. Wedi anwybyddu rhybudd amlwg ar system yr heddlu dro ar ôl tro mewn perthynas â chamddefnyddio cyfrifiaduron/data
   d. Yn gweithredu'n groes i'r Cod Moeseg
   e. Bod ei gweithredoedd hefyd yn adlewyrchu amlinelliad o drosedd(au).

36) Ar y sail bod Uniondeb yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gofyniad ar unigolyn i ddilyn safonau moesegol ei phroffesiwn, daw'r panel i'r casgliad nad oes unrhyw amheuaeth bod PC Lewis wedi "**camarfer yn ei rôl**" fel y'i honnir gan yr Awdurdod Priodol. <u>Felly, ein canfyddiad yw bod y swyddog wedi torri Safon Ymddygiad Proffesiynol 'Gonestrwydd ac Uniondeb'.</u>

***Gorchmynion a Chyfarwyddiadau***
***Dim ond gorchmynion a chyfarwyddiadau cyfreithlon y mae swyddogion yr heddlu yn eu rhoi ac yn eu cyflawni. Mae swyddogion yr heddlu yn cydymffurfio â rheoliadau'r heddlu, polisïau'r heddlu a gorchmynion cyfreithlon.***
**(**CYFADDEFWYD**)**

37) Mae'r swyddog wedi cyfaddef ei bod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn y mater hwn yn ystod yr ymchwiliad ac yn y gwrandawiad hwn. Mae'r panel, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, hefyd yn dod i'r casgliad bod yr achos honedig hwn o dorri safon wedi'i brofi, a hynny'n seiliedig ar y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn y bwndel a'r pwyntiau a nodwyd uchod (paragraff 35) sy'n cefnogi'r achos o dorri Safon

Gonestrwydd ac Uniondeb y ceir dadl yn ei gylch.

***Cyfrinachedd***

***Mae swyddogion yr heddlu yn trin gwybodaeth â pharch ac nid ydynt yn ei chyrchu na'i datgelu oni fydd angen gwneud hynny i gyflawni dyletswyddau'r heddlu yn briodol.*** **(**CYFADDEFWYD**)**

38) Mae'r swyddog wedi cyfaddef ei bod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn y mater hwn yn ystod yr ymchwiliad ac yn y gwrandawiad hwn. Mae'r panel, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, hefyd yn dod i'r casgliad bod yr achos honedig hwn o dorri safon wedi'i brofi, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn y bwndel a'r pwyntiau a nodwyd uchod (paragraff 35) sy'n cefnogi'r achos o dorri Safon Gonestrwydd ac Uniondeb y ceir dadl yn ei gylch.

**<u>Beiusrwydd</u>**

39) Mae canllawiau'r Coleg Plismona yn nodi bod "beiusrwydd " yn dynodi i ba raddau y mae swyddog ar fai neu'n gyfrifol am ei weithredoedd: po fwyaf beius yw'r ymddygiad, y mwyaf difrifol ydyw a'r mwyaf difrifol yw'r canlyniad tebygol. Yn gyffredinol, bydd ymddygiad bwriadol, pwrpasol, wedi'i dargedu neu wedi'i gynllunio yn fwy beius nag ymddygiad sydd â chanlyniadau anfwriadol. Mae'r canllawiau yn nodi rhai categorïau o ymddygiad y dylid eu hystyried yn arbennig o ddifrifol. Mae hyn yn cynnwys y categori, "***diogelu a chamddefnyddio data***". Mae'r canllawiau yn dweud: "***The misuse of police computer systems … is a particular concern for the police service. Police computer and manual systems hold a significant amount of information about members of the public. …[I]t is both a public expectation and a legal requirement that information obtained during the course of policing duties should be treated in strictest confidence, properly protected and only used for legitimate policing purposes"***. Mae'n parhau:
***"Personal reasons for accessing confidential police information such as general curiosity or a desire to check on criminal activity near an officer's home, are not acceptable.***
***…Accessing confidential police information without a legitimate policing purpose is an abuse of an officer's position and may merit dismissal in serious cases"***.
Mae'n gwahaniaethu rhwng achosion o'r fath a mynediad damweiniol at wybodaeth o'r fath.

40) Rhaid i'r panel hefyd ystyried y goblygiadau os yw'r ymddygiad profedig yn

droseddol ei natur wrth ystyried beiusrwydd, hyd yn oed os na fu euogfarn (fel yn yr achos hwn, pan na fu erlyniad). Nododd y swyddog yn glir yn ystod ei thystiolaeth ei bod wedi gweithredu ar ei phen ei hun ac nad oedd wedi cael ei gorfodi na'i rhoi dan bwysau i gael mynediad at systemau'r heddlu. Cyrchodd systemau sawl gwaith dros gyfnod estynedig o hyd at

flwyddyn a hynny er ei budd ei hun, ac er budd ei theulu. At ei gilydd, mae'r panel yn penderfynu bod lefel beiusrwydd y swyddog yn **uchel**.

**a) <u>Niwed</u>**

41) Nodwyd y canlynol yn y Canllawiau (paragraff 4.66) ***"Harm will likely undermine public confidence in policing. Harm does not need to be suffered by a defined individual or group to undermine public confidence. Where an officer commits an act that would harm public confidence if the circumstances were known to the public, take this into account. Always take misconduct seriously that undermines discipline and good order within the police service, even if it does not result in harm to individual victims."***

42) Yn ein barn ni, y lefel fwyaf o niwed sy'n deillio o ymddygiad y swyddog hwn yw'r effaith a'r effaith bosibl ar hyder y cyhoedd. Mae mynediad at ddata a thor diogelwch data yn achos pryder cenedlaethol a lleol o bwys, yn enwedig pan fo'n ymwneud â swyddogion cyhoeddus.

43) Rydym o'r farn bod y niwed posibl a allai ddeillio o weithredoedd y swyddog hwn yn sylweddol. Mae o leiaf saith unigolyn yn gysylltiedig â'r cyhuddiadau y cafwyd mynediad at eu data personol. Mae hefyd nifer anfesuredig o bobl eraill y cyrchwyd eu data wrth wneud chwiliadau o eiddo a lleoliadau. Yn gyffredinol, rydym yn asesu bod lefel y niwed yn yr achos hwn yn **uchel**.

**<u>Ffactorau gwaethygol</u>**

44) Rydym wedi ystyried y nodweddion gwaethygol a amlinellir yn y Canllawiau Canlyniadau ym mharagraff 4.76. Rydym wedi nodi'r ffactorau canlynol.

a. Roedd ymddygiad y swyddog yn fwriadol, yn ymwybodol ac wedi'i gyflawni gan wybod yn llawn ei fod yn groes i ganllawiau a pholisi ac yn amlwg yn "anghywir".
b. Rydym wedi penderfynu, mewn perthynas â chyhuddiad i., fod gwybodaeth wedi cael ei throsglwyddo ymlaen yn rhagweithiol.
c. Roedd y wybodaeth a gafodd ei chyrchu a'i datgelu gan y swyddog yn sensitif ac roedd rhywfaint yn ymwneud â data dioddefwyr a throseddwyr sy'n sensitif iawn o ystyried y potensial

am embaras, ymgyfreitha a'r effaith ar hyder y cyhoedd pe bai mynediad a/neu ddatgeliad amhriodol.

a. Mae bwriad y swyddog wedi'i ddatgan yn glir ac wedi'i gadarnhau, sef ei bod wedi cael mynediad at ddeunydd yn amhriodol ac wedi'i ddatgelu er ei mantais bersonol ei hun, ac er budd ei theulu.
b. Roedd gweithredoedd y swyddog yn enghraifft amlwg o gamfanteisio ar ymddiriedaeth, ei swydd, a'r pwerau a'r awdurdod a roddwyd i gwnstabl.
c. Mae'r achosion o dorri safonau yn ymddygiad a ddigwyddodd droeon dros gyfnod estynedig.
d. Roedd y swyddog yn gwybod drwy gydol y cyfnod perthnasol bod ei hymddygiad parhaus yn gwbl amhriodol, ond ni pheidiodd er hyn.
e. Roedd nifer o ddioddefwyr yn gysylltiedig â gweithredoedd y swyddog.
f. Roedd ei throseddu yn wyriad sylweddol oddi wrth gyfarwyddiadau, gan gynnwys deddfwriaeth, polisi'r heddlu a chanllawiau cenedlaethol
g. Ni wnaeth y swyddog godi unrhyw bryderon nac ychwaith geisio cyngor gan gydweithiwr nac uwch-swyddog mewn perthynas â'i hiechyd, ei lles na'i hymddygiad tramgwyddus.
h. Mae camddefnyddio cyfrifiaduron gan swyddogion cyhoeddus yn achos pryder lleol a chenedlaethol.
i. Rydym wedi canfod nifer o honiadau ac achosion wedi'u profi o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

**Ffactorau lliniarol**

45) Gwnaeth y swyddog gyfaddefiadau agored ond rhannol ar adeg cyflwyno ei hysbysiad Rheoliad 31.

46) Mae'r swyddog wedi datgelu, yn dilyn yr ymchwiliad, broblemau iechyd, straen a lles hunanddatganedig.

47) Mae'r swyddog wedi mynegi'n glir ei bod yn edifarhau ac yn myfyrio mewn perthynas â'i hymddygiad (gweler hefyd baragraff 76 ynghylch datganiad personol y swyddog i'r panel).

48) Rydym wedi ystyried paragraff 4.82 o'r ddogfen ganllaw ar Ganlyniadau sy'n

ymwneud â chamymddwyn a ddigwyddodd sawl blwyddyn cyn y gwrandawiad. Nodwn, yn dilyn yr ymchwiliad, i ymddygiad a gwaith y swyddog fod yn gadarn. Fodd bynnag

mae hyn i'w ddisgwyl ac nid yw'n anarferol i swyddog sy'n wynebu gwrandawiad camymddwyn difrifol. Rydym wedi ystyried hyn yn briodol ond wedi canfod nad yw'n ffactor arwyddocaol, er ei fod yn un rydym wedi ei gydnabod. Nid yw safonau na disgwyliadau gan swyddog mewn perthynas â diogelwch data a chyfrifiaduron wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd ers hynny, sy'n bodloni'r panel nad ydym yn cymhwyso disgwyliadau afrealistig ynglŷn â'i hymddygiad.

**Casgliad y panel ynglŷn â difrifoldeb**

49) Gan ystyried ein canfyddiadau yn unigol ac ar y cyd, rydym wedi ein bodloni eu bod yn cadarnhau lefel uchel o feiusrwydd a lefel uchel o niwed. Nododd y panel nifer sylweddol o ffactorau gwaethygol yn yr achos hwn ond mae'r ffactorau lliniarol yn gyfyngedig iawn. Ar ôl atgoffa ein hunain o'r prawf ar gyfer camymddwyn difrifol, rydym yn gwbl fodlon, ac yn penderfynu'n ffurfiol, fod **yr honiadau o gamymddwyn a thorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sydd wedi'u profi ac wedi'u cyfaddef yn yr achos hwn, yn unigol ac ar y cyd, yn ddifrifol iawn ac yn amlwg yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol,** h.y. y math o ymddygiad a fyddai'n cyfiawnhau diswyddo.

**Argymhelliad ynglŷn â'r ffeithiau**

50) Cyn derbyn argymhellion ynglŷn â sancsiwn, gofynnwyd i'r panel ystyried argymhelliad ar y cyd gan y ddau Gwnsler yn y mater hwn i ddiystyru'r wybodaeth yn ymateb Rheoliad 31 y swyddog sy'n cyfeirio at y termau "***gypo***" a "***traveller***". Gofynnwyd i ni ddiystyru'r termau ac unrhyw gasgliadau ynghylch eu cyd-destun neu eu perthnasedd mewn perthynas â honiad un.

51) Y cwestiwn i ni oedd, "a allai'r panel ailystyried y cyhuddiad yn deg gan anwybyddu'r geiriau "***gypo***" a "***traveller***". Gwnaethom ystyried hyn yn ofalus ac roeddem wedi ein bodloni bod hyn yn rhywbeth y gallwn ei wneud tra bod yn gwbl deg i'r swyddog dan sylw.

52) Yn ystod ein trafodaethau fel panel, rhoddodd y Person Cyfreithiol Gymwysedig rybudd i ni am y pwysau y gallem ei roi ar ddatganiad tyst Miss C. Hysbysodd y Person Cyfreithiol Gymwysedig y panel fod datganiad Miss C yn dystiolaeth achlust, gan nad oedd wedi bod yn dyst byw yn y gwrandawiad. Roedd hyn yn golygu nad

oedd ei thystiolaeth yn ‘dystiolaeth orau’ gan nad oedd y panel wedi gallu gweld na chlywed ei thystiolaeth, ei hymateb i unrhyw gwestiynau nac wedi gallu

gofyn cwestiynau gan y panel iddi. Fodd bynnag, cynghorwyd y panel y gallai ddibynnu ar y dystiolaeth yn natganiad Miss C pe bai'n dod i'r casgliad ei bod yn fwy tebygol o fod yn wir na pheidio. Wrth ystyried hyn roedd gan y panel hawl i gadw mewn cof ei ganfyddiadau ynglŷn â dibynadwyedd a gwirionedd PC Lewis, a wadodd iddi hysbysu Miss C yn uniongyrchol o'r wybodaeth a gafwyd ganddi o gyfrifiadur yr heddlu.

53) Roedd y Person Cyfreithiol Gymwysedig hefyd wedi cynghori'r panel, yn dilyn achos R (Mahfouz) v Professional Conduct Committee of the GMC [2004] EWCA Civ 233, y gallai ailystyried honiad a 1 ac ystyried a yw wedi'i fodloni bod yr Awdurdod Priodol wedi profi, ar sail yr hyn sy'n debygol, fod PC Lewis wedi rhannu rhywfaint o'r wybodaeth a gafodd ar gam o gyfrifiadur yr heddlu â Miss C. Wrth wneud hynny, diystyriodd y panel y cyfeiriadau at "***gypo***" a "***traveller***".

54) Yna, aeth y panel ati i ystyried yn gyntaf ddatganiad tyst Miss C, gan nodi ei chyfeiriadau at,

"***She therefore told me that she was going to "look her up" "***
***"Lewis told me that she had looked up the male person"***
***"Lewis told me that she had overlooked the male person"***
***"Lewis was extremely worried about his background"***
***"Lewis explained to me that there was no address listed against him"***

55) Ni alwyd Miss C fel tyst a nododd yn ei datganiad ei bod yn barod i gefnogi'r ymchwiliad i gamymddwyn. Mae'r dyfyniadau uchod gan Miss C i gyd yn arwydd bod gwybodaeth wedi cael ei chyfnewid mewn sgwrs a daeth y panel i'r casgliad, ar ôl ystyried cyngor y Person Cyfreithiol Gymwysedig yn ofalus, fod y naratif hwn yn fwy tebygol o fod yn wir na pheidio. Yn ogystal â'r dyfyniadau uchod, gwnaethom hefyd ystyried cynnwys y neges ar dudalen 35 o'r bwndel gan Miss C at Lewis sy'n darllen,***" "I will report you for using the police data base for personal use".***

56) Gwnaethom ystyried ymhellach hygrededd tystiolaeth y swyddog rydym eisoes wedi mynegi yn ei gylch ac a oedd yn anargyhoeddiadol yn ein barn ni, fel y'i heglurwyd eisoes i'r gwrandawiad hwn. Daethom i'r casgliad bod yr Awdurdod Priodol wedi profi yn ôl yr hyn sy'n debygol bod

PC Lewis wedi rhannu rhywfaint o'r wybodaeth a ddarganfu ar gronfa ddata'r heddlu â Miss C.

57) Mae'r panel bellach wedi ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol ar y ffeithiau, gan beidio â rhoi unrhyw ystyriaeth i'r termau dadleuol, ac yn ei ganfod yn benderfyniad cadarn.

58) Felly, rydym yn canfod bod y penderfyniad ynghylch datgelu gwybodaeth yn gywir a'i fod yn dal i fod yn gywir, ac rydym yn derbyn achos yr Awdurdod Priodol. Nid yw diystyru'r wybodaeth ychwanegol wedi cael unrhyw effaith ar ein canfyddiad cyffredinol.

59) Cytunir bod y swyddog wedi chwilio cyfrifiadur yr heddlu yn erbyn enw Mr B at ddiben nad oedd yn ymwneud â phlismona, cytunir hefyd bod y swyddog wedi datgelu, "***my god he's a criminal***" o leiaf o fewn clyw Miss C. Mae'r panel hefyd wedi penderfynu, yn ôl yr hyn sy'n debygol, fod sgwrs fwy datblygedig a oedd wedi ymestyn y tu hwnt i'r geiriau y cytunir arnynt uchod, ar y sail ein bod yn derbyn datganiad Miss C yn gyffredinol (gan ystyried yn llawn y rhybuddion cyfreithiol a grybwyllwyd yn gynharach), ein penderfyniad i wrthod y rhan amlycaf o dystiolaeth y swyddog a'r neges rhwng y swyddog a Miss C. Canfyddiad y panel yw bod sgwrs ychwanegol wedi digwydd yn ymwneud â chefndir ymddangosiadol droseddol Mr B, ei breswylfa bosibl a gwybodaeth gyd-destunol gysylltiedig sy'n tarddu neu'n deillio o wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn system yr heddlu.

60) Er mwyn ei gwneud yn glir, nid yw ein canfyddiadau ynglŷn â'r holl honiadau ac achosion o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn dibynnu ar y canfyddiad ffeithiol penodol hwn. Hyd yn oed pe baem wedi dyfarnu o blaid y swyddog ar y mater hwn, rydym wedi ein bodloni na fyddai wedi cael effaith sylweddol ar ein penderfyniad ynghylch difrifoldeb y camymddygiad. Mae'r panel wedi'i fodloni bod y ffeithiau a brofwyd a'r achosion o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol wedi'u dosbarthu'n gamymddwyn difrifol yn briodol hyd yn oed heb ganfyddiad yn erbyn PC Lewis ei bod wedi rhannu rhywfaint o'r wybodaeth hon â Miss C.

**Canlyniad**

61) Derbyniodd y panel argymhellion gan y ddau Gwnsler ac mae wedi eu hystyried yn

ofalus mewn perthynas â’r hyn a ddylai, ym marn y panel, fod yn ganlyniad priodol yn yr achos hwn. Digon

yw crynhoi bod yr Awdurdod Priodol yn cynnig diswyddo heb rybudd a bod Cwnsler y swyddog yn cynnig rhybudd ysgrifenedig terfynol am gyfnod i'w bennu gan y panel.

62) Rhoddodd y Person Cyfreithiol Gymwysedig gyngor cyfreithiol penodol i ni ddilyn Canllawiau'r Coleg Plismona ac ailystyried ein penderfyniadau cynharach, yn enwedig mewn perthynas â beiusrwydd, niwed, a ffactorau gwaethygol a lliniarol. Cawsom ein cyfeirio at yr adrannau penodol a pherthnasol o'r canllawiau.

63) Gwnaethom atgoffa ein hunain eto o bwrpas cyfundrefn camymddygiad yr heddlu – sef:

- cynnal hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu a'i enw da.
- cynnal safonau uchel o ran plismona ac atal camymddwyn.
- diogelu'r cyhoedd.

64) Gwnaethom strwythuro ein trafodaethau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Canllawiau Canlyniadau fel y'i nodir isod. Mae'r Canllawiau ym mharagraff 4.2 yn nodi'r camau i benderfynu ar y sancsiwn priodol.

***a. Asesu difrifoldeb yr achos o gamymddwyn:***

***b. Cadw diben rhoi sancsiynau mewn cof:***

***c. Dewis y sancsiwn sy'n cyflawni'r diben hwnnw yn y ffordd fwyaf priodol o ystyried difrifoldeb y camymddygiad dan sylw.***

65) Nodwyd gennym mai un o'r ffactor pwysicaf yw effaith yr achos o gamymddwyn ar statws ac enw da'r proffesiwn plismona (ac wrth gwrs, ar Heddlu De Cymru yn benodol).

66) Roedd ein canfyddiad o gamymddwyn difrifol ar gyfer yr holl gyhuddiadau, yn ôl y diffiniad, yn un bod yr achos o gamymddwyn mor ddifrifol fel y gellid cyfiawnhau diswyddo'r swyddog, er i ni nodi a chadw mewn cof drwy gydol ein trafodaethau na fydd pob canfyddiad o gamymddwyn difrifol yn arwain at ddiswyddo.

67) Gofynnodd Cwnsler y swyddog i ni ystyried pa fudd a gafodd y swyddog yn sgil ei gweithredoedd. Gwnaethom benderfynu ei bod wedi cael gafael ar ddata sensitif a chyfrinachol mewn perthynas â;

i. Manylion personol

ii. Data ar euogfarnau

iii. Cudd-wybodaeth

iv. Data ar droseddau

v. Data ar leoliad

vi. Data ar ddigwyddiadau.

68) Rydym yn derbyn argymhelliad Cwnsler y swyddog y gall rhywfaint o'r data hyn fod ar gael i aelodau'r cyhoedd. Rydym yn ymwybodol iawn o hyn ond nid yw'r wybodaeth sydd wedi'i gwneud yn dderbyniol ac sydd wedi'i fetio'n ofalus sydd ar gael i'r cyhoedd yn gymaradwy o gwbl â'r wybodaeth sensitif a manwl a gyrchwyd gan y swyddog drwy systemau'r heddlu.

69) Gwnaethom ofyn i ni'n hunain beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym ynglŷn â pham y gwnaeth y swyddog y chwiliadau amhriodol hyn. Mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliad y Cwnsler bod gweithredoedd y swyddog yn ymatebion i ddigwyddiadau bywyd, roeddem yn deall yr argymhelliad, ond bydd gan bob gweithred, boed yn ddiniwed neu'n amhriodol, achos neu sbardun fel arfer. Nid ydym yn ystyried hyn yn fater hollbwysig gan, ar ei orau, mai esboniad ydyw, yn hytrach na chyfiawnhad dilys o'i chamweddau.

70) Daethom i'r casgliad bod y swyddog wedi cyflawni'r gweithredoedd hyn i'w helpu i wneud penderfyniadau a materion a oedd yn ymwneud â'i bywyd hi, ei theulu a'i sefyllfa ddomestig. Ceisiodd nodi materion a oedd yn ymwneud â chefndir troseddol unigolion a lleoliadau i'w llywio, a'i galluogi, i wella neu liniaru problemau ansawdd bywyd iddi hi a'i theulu. Ceisiodd wybodaeth i gynorthwyo yn ei bywyd domestig trafferthus a chael mynediad at blentyn a rheolaeth drosto. At ei gilydd, cafodd wybodaeth a chudd-wybodaeth sensitif nad yw ar gael yn ddilys i **neb** at y dibenion y gwnaeth ei defnyddio ar eu cyfer. Cynigiodd Cwnsler y swyddog mai'r unig fudd a gafodd y swyddog oedd "***tawelwch meddwl***". Mae'r panel o'r farn bod ei thor ymddiriedaeth amlwg, fel y'i penderfynwyd yn gynharach, mewn perthynas â chyflawni'r cyhuddiadau a thorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, wedi rhoi'r manteision pendant ac anghyfreithlon a amlinellwyd uchod iddi.

71) Gwnaethom ailystyried yn ofalus, yng ngoleuni'r argymhellion, ein hasesiad o ddifrifoldeb y mater hwn ac ailystyried y ffactorau gwaethygol a lliniarol yn y cyhuddiadau a'r achosion o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol. Nid arweiniodd yr ymarfer hwn at unrhyw newid i'n penderfyniad fel y'i nodwyd yn gynharach yn y gweithrediadau hyn.

72) Rydym wedi ystyried yn ofalus gofnod gwasanaeth y swyddog a'r holl eirdaon a gyflwynwyd gerbron y panel hwn. Cafodd y rhain eu crynhoi'n ddefnyddiol gan Gwnsler y swyddog, ac rydym yn fodlon ein bod wedi rhoi pwys priodol ar y geirdaon hyn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'i harferion gwaith cynhyrchiol a chanmoladwy mwy diweddar.

73) Gwnaethom gadw mewn cof fod yn rhaid i ni bob amser ystyried ffactorau lliniaru personol, ond mai'r tebyg yw mai effaith gyfyngedig a gaiff camau lliniaru personol ar y canlyniad os bydd yr achos o gamymddwyn yn peryglu'r gallu i gynnal hyder y cyhoedd yn yr heddlu a pharch ato. Aeth y Panel ati i ystyried yr achos o gamymddwyn a'r ffactorau lliniaru ac i roi'r canlyniad mwyaf priodol – atebwyd y cwestiwn o ba ganlyniad sy'n briodol drwy ystyried yr ystod o ganlyniadau sydd ar gael gan ddechrau gyda'r lleiaf difrifol sef rhybudd ysgrifenedig terfynol yn yr achos hwn, a, dim ond os oedd angen, symud ymlaen o ran difrifoldeb i'r opsiwn o ddiswyddo heb rybudd.

74) Roeddem yn ymwybodol drwy'r cyfan i sicrhau nad 'cosbi' oedd ein pwrpas ond mynd i'r afael â chanlyniadau datganedig y gyfundrefn camymddygiad.

75) Mae pwysigrwydd cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn plismona a pharch ato yn brif ystyriaeth wrth wneud ein penderfyniad. Roedd achos penodol y swyddog hwn o gamymddwyn yn dor ymddiriedaeth sylweddol ac yn amharchu'n llwyr hawliau'r rhai y mae'r heddlu yn dal eu data gyda rheolaethau llym a phwysig. Roeddem wedi ein bodloni bod troseddu'r swyddog hwn wedi peryglu'r gallu i gadw hyder y cyhoedd mewn plismona a pharch ato. Mae hyn yn arwain at roi llai o bwys ar y ffactorau lliniaru personol a gyflwynwyd.

76) Gwnaethom ganiatáu i'r swyddog wneud datganiad personol cyn ein gohiriad er mwyn ystyried sancsiwn. Er bod amseriad hwn yn anarferol, roeddem yn teimlo ei bod yn briodol caniatáu hyn ac wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r hyn a gyflwynodd y swyddog. Rhoddodd y swyddog drosolwg angerddol a disgrifiadol o'r ffordd y mae wedi derbyn cyfrifoldeb, ei sefyllfa ddomestig flaenorol a oedd yn orfodaethol ac yn rheolaethol a'i phroblemau iechyd blaenorol. Amlinellodd yn glir ei bod yn edifarhau am dramgwyddo, ac amlinellodd ei sefyllfa gyflogaeth bresennol ac, ynghyd â'r geirdaon, mae hyn yn atgyfnerthu gwybodaeth y panel am ei record cyn ac ar ôl y cyfnod y mae'r honiadau yn ymwneud ag ef. O ganlyniad i ddatganiad y swyddog atgyfnerthwyd argymhellion y Cwnsler, ond arweiniodd hefyd at roi dealltwriaeth glir i'r panel o'r effaith y

byddai diswyddo yn ei chael ar y swyddog. Felly cadwyd hyn mewn golwg gennym ac wedi'i ystyried yn briodol drwy gydol ein trafodaethau ynghylch beth ddylai fod yn sancsiwn priodol.

77) Mae lefel pryder y cyhoedd ynghylch ymddygiad Swyddogion yr Heddlu ar hyn o bryd yn arbennig o uchel. Byddai aelodau'r cyhoedd, pe baent yn ymwybodol o dramgwyddau lluosog y swyddog, yn dychryn y gallai swyddog gael mynediad at eu gwybodaeth bersonol droeon at ei ddibenion ei hun fel y'i hamlinellir uchod ac y gwnaeth hynny.

78) Yn Bolton v. Law Society [1994] 1 WLR 512 dywedodd yr Arglwydd Bingham, Meistr y Rholiau, yng nghyd-destun achosion disgyblu cyfreithwyr ei bod yn ofynnol i gyfreithwyr sy'n ymarfer yn y DU "***that they should discharge their professional duties with integrity, probity and complete trustworthiness***". Dywedodd mai diben mwyaf sylfaenol gweithdrefnau disgyblu proffesiynol oedd cynnal enw da'r proffesiwn a "***sustain public confidence in the integrity of the profession ... A profession's most valuable asset is its collective reputation and the confidence which that inspires***". Mae hyn yr un mor berthnasol i swyddogion yr heddlu, fel y'i cadarnhawyd yn Salter (gweler isod).

79) Yn achos Prif Gwnstabl Dorset v. PAT a Salter [2011] EWHC 3366 (Gweinyddol) nododd yr Uchel Lys dri ffactor pwysig i'w hystyried (yn ymdrin â chanlyniad, ond yn berthnasol hefyd i ddiben gweithrediadau camymddygiad):

"*24.* ***It follows that when considering questions of sanction, the Panel, the Chief Constable on review and the Tribunal should have regard to the following factors:***

> ***i. The imposition of sanctions following a finding of misconduct by a police officer may have three elements:***
>
> > ***a. There may be a punitive element designed to punish the police officer concerned and to deter others, particularly if he has not been prosecuted and convicted. But the imposition of sanctions is not primarily punitive, and may not be punitive at all.***
> > ***b. The sanctions imposed may be designed to ensure that the police officer does not have the opportunity to repeat his misconduct.***
> > ***c. However, the most important purpose of these sanctions, particularly in***

***cases involving dishonesty or impropriety in connection with an***

***investigation, is to maintain public confidence in the police service and to maintain its collective reputation.***

***ii. One consequence of the fact that sanctions imposed in the disciplinary process are not primarily punitive is that personal mitigation is likely to have a limited impact on the outcome."***

80) Gwnaethom roi ystyriaeth benodol i ganfyddiad y cyhoedd o'r math hwn o gamymddwyn, yr effaith andwyol ar hyder y cyhoedd a'r effaith benodol y byddai'n ei chael ar y canfyddiad am blismona a chyfundrefn camymddygiad yr heddlu.

81) Mae ystyriaethau cryf iawn sy'n ymwneud â budd y cyhoedd a hyder y cyhoedd yn yr achos hwn oherwydd natur yr ymddygiad troseddol, yn ogystal â chyfarwyddyd clir gan y **Canllawiau Canlyniadau** yn (Paragraff 6.6);

***"The primary consideration for the panel or chairperson is the seriousness of the misconduct found proven. If the misconduct is so serious that nothing less than dismissal would be sufficient to maintain public confidence, personal mitigation will not justify a lesser sanction."***

82) Yr egwyddor a amlinellwyd yn *R (ar gais Prif Gwnstabl Gorllewin Canolbarth Lloegr) (Hawlydd) v Cadeirydd y Panel (Panel camymddygiad yr heddlu) (Diffynnydd) a Swyddog A (Parti â diddordeb) (2020).*Mae'r achos hwn yn pwysleisio pwysigrwydd cadw diben cyffredinol y gyfundrefn camymddygiad mewn cof ym mhob cam o'r broses. Mae'r achos yn ein hatgoffa i fynd i'r afael â hyn yn ein canlyniad ysgrifenedig, ac rydym wedi gwneud hynny drwy asesu'r ffeithiau cymwys mewn perthynas â phob cam o'r broses ac amlinellu sut maent yn cyd-fynd â diben y gyfundrefn camymddygiad. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ystyried yr effaith y byddai ein canlyniad yn ei chael ar y swyddog hwn.

83) At ei gilydd, rydym o'r farn bod troseddu'r swyddog yn ddifrifol iawn ac rydym wedi cymhwyso dibenion y gyfundrefn camymddygiad (fel y'i hamlinellwyd yn flaenorol) yn ofalus at ein holl drafodaethau ynglŷn â sancsiwn er mwyn cymhwyso canlyniad sy'n cyflawni ei hamcanion cyffredinol orau. Yn gyntaf, gwnaethom ystyried rhybudd ysgrifenedig terfynol ac a fyddai'n cyflawni diben y gyfundrefn.

84) Profir camymddwyn difrifol yn yr achos hwn ac ar gyfer y math hwn o drosedd mae'r Canllawiau Canlyniadau ym mharagraff 4.74 yn glir bod diswyddo yn debygol o ddilyn.

85) Mae ymddygiad y swyddog yn adlewyrchu'r elfennau o drosedd, Adran 170 o Ddeddf Diogelu Data 2018, ac Adran 1 o Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990. Gall y drosedd gyntaf arwain at ddirwy ddiderfyn a gall yr olaf arwain at hyd at ddwy flynedd o garchar neu ddirwy. Fe'n cynghorir i ystyried y ffaith hon gan y canllawiau, er nad oes euogfarn droseddol yn yr achos hwn (paragraff 4.23).

86) Mae'r math hwn o ymddygiad wedi cael ei weld, yn rhy aml o lawer, ledled y DU ac mae swyddogion wedi cael eu diswyddo ac mae llawer wedi cael cofnodion troseddol hefyd. Mae hyn yn hysbys ac wedi cael cyhoeddusrwydd da. Mae angen i sancsiwn priodol sicrhau effaith ataliol glir er mwyn amddiffyn y cyhoedd, swyddogion a staff rhag ymddygiad tebyg mewn modd sy'n cyfleu neges gadarnhaol i bawb sy'n arsylwi ar y broses hon.

87) Mae angen i'r canlyniad o ran sancsiwn a benderfynwn gynnal safonau proffesiynol uchel a'i gwneud yn glir i swyddogion/staff na fydd ymddygiad o'r fath, ar ddyletswydd ai peidio, yn cael ei oddef. Nodwn ein bod yn ystyried saith achos o dorri safonau a ganfuwyd dros gyfnod o hyd at flwyddyn.

88) Mae ymddygiad y swyddog yn groes i'r hyfforddiant a'r prosesau codi ymwybyddiaeth helaeth y mae wedi mynd drwyddynt. Fel y'i nodwyd, bob tro y gwnaeth gyrchu system yr heddlu, anwybyddodd y rhybudd clir a manwl gywir am gamddefnyddio cyfrifiaduron yn ddi-hid. Dewisodd beidio â dilyn ei hyfforddiant penodol mewn perthynas â'r maes hwn, ac ni wnaeth ychwaith gadw at ddisgwyliadau clir gwasanaeth yr heddlu.

89) Ym marn y panel mae swyddogion yr heddlu, wrth gyflawni eu dyletswyddau, yn cael mynediad at wybodaeth breifat a phersonol iawn, a geir yn aml pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn teimlo ar eu mwyaf bregus. Wrth ddal y wybodaeth honno, rhaid ymddiried yn swyddogion yr heddlu yn llwyr a heb eithriad. Os na ellir ymddiried yn swyddogion yr heddlu yna, yn naturiol, mae aelodau'r cyhoedd yn llai tebygol o ddatgelu gwybodaeth a chefnogi ymchwiliadau'r heddlu. Mae'r mynediad hwnnw at wybodaeth

yn rhoi swyddogion yr heddlu mewn rôl ag awdurdod, ac ni ddylent fyth gamddefnyddio’r awdurdod hwnnw.

90) Mae'n un o ddisgwyliadau'r cyhoedd ac yn ofyniad cyfreithiol y dylai gwybodaeth a geir wrth ymgymryd â dyletswyddau plismona gael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ei diogelu'n briodol a'i defnyddio at ddibenion dilys yr heddlu. Nid yw rhesymau personol dros gael gafael ar wybodaeth gyfrinachol yr heddlu yn dderbyniol. Os bydd swyddog yn cael gafael ar wybodaeth bersonol nad yw ar gael i'r cyhoedd, dylai fod diben plismona penodol a phriodol dros wneud hynny bob amser. Pan fydd swyddog yn cyrchu gwybodaeth gyfrinachol yr heddlu heb ddiben plismona dilys mae'n camarfer yn ei rôl fel swyddog ac mae'n achos clir o ddiffyg uniondeb, disgyblaeth a synnwyr cyffredin. O ystyried popeth mae tramgwyddau lluosog y swyddog hwn yn arwydd o unigolyn sy'n gwbl anaddas i ddal swydd cwnstabl.

91) Roedd ein penderfyniad terfynol yn adlewyrchu'n benodol;

a. Yr honiadau a'r achosion lluosog difrifol iawn o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol sydd wedi cael eu profi a'u cyfaddef, (gweler paragraffau 35 ac 85)
b. Y lefel uchel o feiusrwydd (paragraffau 39 – 40) a'r lefel uchel o niwed (paragraffau 41 – 43)
c. Ffactorau gwaethygol sylweddol (paragraff 44)
d. Ffactorau lliniarol cyfyngedig (paragraffau 45 – 48)
e. Budd i'r swyddog a'i theulu (paragraffau 67 – 70)
f. Yr angen i gynnal hyder y cyhoedd ac enw da'r gwasanaeth
g. Yr angen i gynnal safonau mewn plismona ac atal camymddwyn yn y dyfodol.

92) Atgoffodd y panel ei hun mai'r mater canolog dan sylw, o ystyried egwyddor cymesuredd a phwyso a mesur buddiannau'r cyhoedd a'r swyddog, yw enw da neu statws y proffesiwn plismona yn hytrach na chosbi'r swyddog. Yn unol â hynny, daeth y Panel i'r casgliad, ar ôl canfod achos o gamymddwyn difrifol, fod ymddygiad y swyddog wedi achosi niwed mawr i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn plismona ac y bydd yn parhau i wneud hynny. **Ar ôl ystyried y canlyniad posibl lleiaf yn gyntaf, a rhoi ystyriaeth lawn a difrifol i'r opsiwn o rybudd ysgrifenedig terfynol, rydym wedi ein bodloni bod yr achos hwn o gamymddwyn mor ddifrifol fel mai dim ond diswyddo heb rybudd yw'r canlyniad y gellir ei gyfiawnhau ac sy'n gymesur ag amcanion datganedig cyfundrefn camymddwyn yr heddlu, am y rhesymau a amlinellwyd gennym uchod.**

**Rhestr Unigolion Gwaharddedig**

93) Rydym yn cyfarwyddo bod enw'r swyddog yn cael ei roi ar Restr Unigolion Gwaharddedig yr Heddlu (Rheoliadau Rhestr Unigolion Gwaharddedig yr Heddlu a Rhestr Ymgynghorol yr Heddlu 2017).

**Darpariaeth Apêl**

94) Mae gan y swyddog hawl i apelio yn unol â Rheolau Tribiwnlys Apêl yr Heddlu 2020. Rhaid i'r swyddog roi rhybudd o'i bwriad i apelio i'r Awdurdod Priodol o fewn 10 diwrnod gwaith i gyflwyno'r penderfyniad ysgrifenedig hwn.

Llofnod

Ian Arundale QPM
Cadeirydd y Gwrandawiad
Camymddygiad